**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**27/06/02**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2002-0015 Galw am Ymchwiliad Cyhoeddus i Syndrom Rhyfel y Gwlff / Call for Public Inquiry into Gulf War Syndrome

24 Jun 2002 Raised by John Griffiths LLB, Owen John Thomas MA

5 Subscribers:

Janet Ryder
Richard Edwards
Dafydd Wigley
Brian Hancock
Val Lloyd

*Mae dros 100 o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yng Nghymru yn dioddef gan glefyd nas diagnoswyd, a adwaenir fel 'Syndrom Rhyfel y Gwlff'. Mae'r nifer yn cynnwys nid yn unig gyn-filwyr a wasanaethodd yn Rhyfel y Gwlff yn 1990 ond hefyd filwyr wrth-gefn a dderbyniodd gymysgedd o frechiadau wrth ddisgwyl galwad. Mae'r bobl hyn am i'w cyflwr gael ei gydnabod a'i drin. Ni ddarparwyd unrhyw adnoddau meddygol arbennig er mwyn eu helpu. Galwn am ymchwiliad cyhoeddus i'r cyflwr a adwaenir fel 'Syndrom Rhyfel y Gwlff' ac am gymorth i'r bobl hynny sy'n dioddef ganddo.*

*There are over 100 former armed service personnel in Wales suffering from an undiagnosed disease known as 'Gulf War Syndrome'. This includes not only veterans who served in the Gulf War in 1990 but also stand-by personnel who were administered a cocktail of vaccinations in anticipation of call-up. All are seeking recognition of, and treatment for, their condition. No*

*specific medical resources have been made available to help these people. We call for a public inquiry into the condition known as 'Gulf War Syndrome' and for assistance to be provided for those afflicted by it.*

## OPIN-2002-0014 Y Fflotila Moroedd Di-niwclear/ Nuclear Free Seas Flotilla

21 Jun 2002 Raised by Richard Edwards

8 Subscribers:

- Janet Ryder
- John Griffiths LLB
- Dafydd Wigley
- Rhodri Glyn Thomas
- Val Lloyd
- Lorraine Barrett
- Owen John Thomas MA
- Peter Black

*Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi'r Fflotila Moroedd Di-niwclear o Sir Benfro yn ei rôl fel rhan o brotest fyd-eang yn erbyn anfon y llwyth o ocsid cymysg plwtoniwm (MOX) a wrthodwyd sydd ar fin gadael Siapan am y Deyrnas Unedig ddechrau mis Gorffennaf. Mae'r llwyth o MOX, sy'n cynnwys 255 cg o blwtoniwm ar gyfer gwneud arfau, yn cael ei anfon yn ôl i Sellafield ar ôl i Danwydd Niwclear Prydain (BNFL) gyfaddef iddynt ffugio data diogelwch tyngedfennol. Nid oes neb yn gwybod pa lwybr y bydd y llong yn ei gymryd ond bydd yn rhaid iddi hwylio drwy Fôr Iwerddon. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch bygythiad anferthol o ymlediad niwclear, terfysgaeth, a damweiniau. Mae'n beryglus, yn anghyfreithlon, a rhaid atal hyn.*

*This National Assembly supports the Nuclear Free Seas Flotilla from Pembrokeshire in its role as part of a global protest against the shipment of rejected plutonium mixed oxide (MOX), due to leave Japan for the United Kingdom in early July. The MOX shipment, containing 255 kgs of weapons-usable plutonium, is being returned to Sellafield after British Nuclear Fuels (BNFL) admitted to falsifying critical safety data. The route to be taken is still unknown but the shipment will have to pass through the Irish Sea. This raises questions of huge threats of nuclear proliferation, terrorism, and accidents. It is dangerous, unlawful, and must be stopped.*